CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ clerc @cyngortrefffestiniog.cymru

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 6ed o EBRILL 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Annwen Daniels

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Bedwyr Gwilym, Erwyn Jones, Will G. Roberts
Mel Goch ap Meirion, Kevin Baldwin, Mandy Williams-Davies
Ronwen D Roberts a Gareth W Jones

9839/04/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Rory Francis a Mari Rees

9840/04/17 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Erwyn Jones	**9841/04/17**	**Cais Nat West i ddefnyddio'r Siambr**
Cynghorydd Erwyn Jones	**9847/04/17**	**CaisAriannol Llu Cadetiaid y Fyddin**
Cynghorydd Annwen Daniels	**9847/04/17**	**CaisAriannol Llu Cadetiaid y Fyddin**
Cynghorydd Will G Roberts	**9844/04/17**	**Cyfrifon i'w talu**
Cynghorydd Ronwen D Roberts	**9847/04/17**	**Cais Ariannol Ras y Moelwyn**

9841/04/17 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Datgan Diddordeb

Cynghorydd Erwyn Jones

Ni chymerodd y Cynghorwyr Annwen Daniels, Erwyn Jones na Mandy Williams-Davies unrhyw ran yn y drafodaeth hon.

Cafwyd cais gan fanc y NatWest i gael defnyddio'r Siambr pob dydd Mawrth am 13 wythnos am dal o £312.
PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad

Cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd yn awyddus i drosglwyddo perchnogaeth o Neuadd Ffestiniog. Gofynnwyd a yw'r Cyngor Tref gyda diddordeb yn ei gymryd drosodd.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a'i drafod ymhellach os bydd mwy o wybodaeth i law ym mis Mai.

9842/04/17 MATERION YR HEDDLU

Roedd y Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Delyth Edwards yn bresennol yn y cyfarfod. Cafwyd gwybodaeth bod y ddalfa yn Nolgellau wedi cau bellach, Llanelwy, Wrecsam neu Gaernarfon fydd dalfa bellach. Mae 16 wedi cwblhau cwrs i fod yn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ddiweddar a byddent yn cael eu lleoli yn Meirion/Dwyfor.

Bydd y Rhingyll Iwan Jones yn gadael ei swydd yma ac yn trosglwyddo i swydd newydd gyda'r Arolygydd newydd sef yr Arolygydd Gethin Jones, gyda'r Rhingyll Colin Jones yn cael ei leoli'n lleol.

Cafwyd tân creithio'n fwriadol yn ddiweddar ac mae pedwar person ifanc wedi eu cyhuddo. Cafwyd gwybodaeth bod cyfarfodydd da o Pubwatch yn cael eu cynnal pob mis.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9843/04/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 9fed MAWRTH 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio

9844/04/17 CYFRIFON I'W TALU
MAWRTH 2017
Datgan Diddordeb
Cynghorydd Will G Roberts

Eifion Stores	£	7.90	Rhif Siec.	002400
K W Jones (Sustem e-byst)	£	240.00	Rhif Siec.	002401
K W Jones (Camera CC)	£	95.00	Rhif Siec.	002401
K W Jones (Wefan)	£	1500.00	Rhif Siec.	002402
Greenbarnes Ltd (Hysbysfwrdd)	£	1948.90	Rhif Siec.	002403
Ffrindiau Cae Baltic (At gostau ffens)	£	3000.00	Rhif Siec.	002404
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	98.38	Rhif Siec.	002405
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	997.60	Rhif Siec.	002406
G L Jones Playgrounds(Siglen)	£	7188.00	Rhif Siec.	002408
Designer Signs(Fflagiau ac Arwyddion)	£	1632.48	Rhif Siec.	002409
John Roberts (Ffestiniog) Ltd (Parc Sglefrio)	£	12316.80	Rhif Siec.	002410
J D Roberts (Archwiliwr mewnol)	£	115.00	Rhif Siec.	002411
Swyddfa Archwilio Cymru (Archwiliad allanol)	£	191.10	Rhif Siec.	002412
J P Farrington (Garddio)	£	115.00	Rhif Siec.	002413
Designer Signs(Arwyddion)	£	120.00	Rhif Siec.	002421
Eifion Stores	£	7.75	Rhif Siec.	002422
BT (Ffôn)	£	32.28	Debyd Uniongyrchol	
BT (Band eang)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	200.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9845/04/17 CYFRIFON I'W TALU
EBRILL 2017

Elin Roberts (Ysgoloriaeth Patagonia)	£	1500.00	Rhif Siec.	002414
UnLlais Cymru (Aelodaeth)	£	760.00	Rhif Siec.	002415
Arian Parod	£	150.00	Rhif Siec.	002416
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	405.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9846/04/17 ARIAN I MEWN

Heddlu Gogledd Cymru (Ad-daliad camerâu cc)	£	800.00
Treialon Cŵn Defaid Bro Ffestiniog (at Diffibriliwr)	£	500.00

9847/04/17 CEISIADAU ARIANNOL
Datgan Diddordeb
Cynghorydd Erwyn Jones
Cynghorydd Annwen Daniels
Cynghorydd Ronwen D Roberts

Llu Gadetiaid y Fyddin	£	300.00	Rhif Siec.	002423
Ras y Moelwyn	£	300.00	Rhif Siec.	002424

9848/04/17 PWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 16eg o Fawrth 2017

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 16eg Mawrth 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Annwen Daniels
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Ronwen D Roberts
Wil Guest Roberts
Bedwyr Gwilym

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Mandy Williams-Davies
Mari Rees

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Adroddiad Caeau Chwarae**
Bu i'r cynghorwyr drafod adroddiad archwiliwr caeau chwarae. Cafwyd gwybodaeth gan gynghorydd y byddai bin ychwanegol yn beth da ar gae Sgwâr Oakeley.
Argymell: Ni chafwyd unrhyw nam newydd ar y caeau felly derbyn yr adroddiadau. I holi am brisiau ar gyfer bin gyda logo'r Cyngor Tref arno.

2. **Y Parc** - Bu i'r cynghorwyr drafod pris o £5990.00 cyn TAW ar gyfer siglen a llawr wet pour newydd yn dilyn y difrod diweddar. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â beth i wneud a'r coed.
Argymell: I dderbyn pris G L Jones ar gyfer y siglen ac i drefnu i roi gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol y bydd y coed ar gael yn y Parc dydd Sadwrn 25ain o Fawrth rhwng 10.00 ac 12.00 o'r gloch. Gofynnir am gyfraniad i'r Parc yn dâl am y coed.

3. **Cae Baltic** - Cafwyd trafodaeth beth i wneud gyda'r £3000 sydd wedi ei neilltuo ym mhraesept 2016/17 ar gyfer cyfraniad tuag at ffensio Cae Baltic gan nad yw Ffrindiau Cae Baltic yn gallu cwblhau'r gwaith o ffensio'r cae ar gyfer y datblygiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
Argymell: I gyfrannu'r £3000 i Ffrindiau Cae Baltic

4. **Cae Bryn Coed** - Cafwyd cais am ganiatâd i ddefnyddio Cae Bryn Coed yn ystod gwyliau'r Pasg
Argymell: I ganiatáu defnyddio Cae Bryn Coed ar amod bod Gwelliannau Ffestiniog yn cytuno a hyn.

5. **Gwefan**
Gofynnwyd am farn pawb ar gynnwys y wefan cyn iddi fynd yn fyw.
Argymell: Pawb i yrru unrhyw sylwadau erbyn dydd Llun 20 Mawrth. I gadarnhau bod Clerc y Dref yn gyfrifol am lanlwytho gwybodaeth ar y wefan er mwyn sicrhau bod y dogfennau diweddaraf yn cael eu cynnwys cyn gynted â modd.

6. **Diffibriliwr** -Cafwyd cyfraniad o £500 gan Dreialon Cŵn Defaid Bro Ffestiniog tuag at y gost o osod diffriliwr tu allan i'r adeilad.
Argymell: I dderbyn y cyfraniad gyda diolch ac i symud ymlaen gyda phrynu diffibriliwr.

7. **Caniatâd i dalu biliau** Eifion Stores, Kevin Jones a Greenbarnes
Argymell: Rhoddwyd caniatâd i dalu'r biliau

8. **Camerau CC**– Cafwyd trafodaeth ynglyn a gosod camera cc yn swyddfa'r Cyngor ac ar du allan i'r adeilad yn dilyn digwyddiadau yn ddiweddar
Argymell: I gael pris am gamerau i'r swyddfa a thu allan i'r adeilad.

PENDERFYNIAD: Derbyn yr argymellion gyda'r Cynghorydd Wil G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio. I symud ymlaen gyda chamera ccc ar gyfer y swyddfa. I yrru llythyr o ddiolch am y gyfraniad hael tuag at prynnu diffibriliwr at Gymdeithas Treialon Cwn Defaid Bro Ffestiniog. I drafod y diffibriliwr yn fwy manwl yng nghyfarfod mis Mai a'i osod ar du allan i'r adeilad. I gadarnhau na'r claf fydd yn dod at y diffibriliwr ac nid mynd a'r diffibriliwr at y claf.

9849/04/17 PWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 23ain o Fawrth 2017

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 23AIN O FAWRTH 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Wil Guest Roberts (Cadeirydd)
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Rory Francis
Mr John Evans Cerddwr Llwybrau

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Annwen Daniels

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

Yn absenoldeb y Clerc, bu i'r Cynghorydd Erwyn Jones gofnodi.

Gofynnodd y Cynghorydd Mel Goch ap Meirion i'r Pwyllgor canolbwyntio ar lwybrau categorïau 1, 2 a 3 a bu i'r Pwyllgor gytuno a hyn gan eu bod yn cymryd yn ganiataol bod gan gerddwyr mapiau ayb. wrth gerdded llwybrau yn y mynydd.

Cafwyd trafodaeth ar adroddiad cyflwr y Llwybrau Cyhoeddus gan Mr John Evans ac argymhellwyd fel a ganlyn

Llwybr	Lleoliad	Gwaith/sylw angen	Dyddiad Cerdded	Sylwad Pwyllgor Mwynderau
04 Cat. 1/2 3065m	**O derfyn Gogleddol gorsaf Dduallt i'r Fron, Tanygrisiau.** Y llwybr yn dechrau i'r gogledd o orsaf y Dduallt ac yn arwain i Danygrisiau drwy Fuarth Melyn a Dopog.	Dim problem Giatiau sydd pob ochr i reilffordd Ffestiniog tu ôl i bwerdy Tanygrisiau wedi cael ei thynnu i ffwrdd. Dwi yn credu ei bod wedi cael ei thynnu er mwyn Ras y Moelwyn.	29.08.16 24.09.16	 Y giatiau wedi eu rhoi yn ol erbyn hyn
06 Cat. 1/2 2222m	**O Lwybr 4 i'r A496 yng Ngheunant Sych, i'r Gogledd o Ffynnon Doctor.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 4 drwy Bont Rhyd y Sarn, drwy Barc Cymerau at yr A496 yng Ngheunant Sych.	Mae angen hardcore a draen mewn rhan wlyb a mwdlyd tua - SH692424. Baw ci ar y llwybr .Angen bocs baw ci. Mae ambell i ddraen concrete sydd i lawr yr allt am Ryd-y-sarn wedi cau. Coed i lawr yn y goedwig rhwng Rhyd-y-sarn a Dduallt lle mae llwybr o Blas Dolmoch yn ymuno. Tua - SH432422.	24.07.16 28.08.16 29.08.16	Argymell Kyliejonesmattock@woodlandtrust.org.uk, Coed Cadw a gofyn iddynt a fyddai'n bosib iddynt wneud y gwaith draenio fel awgrymir yn yr adroddiad. I holi am fin baw ci. Y coed wedi eu clirio rhwng Rhyd y Sarn a Dduallt

Llwybr	Lleoliad	Gwaith/sylw angen	Dyddiad Cerdded	Sylwad Pwyllgor Mwynderau
07 **Cat 1/2 787m**	**O Lwybr 6 i'r A496 yng Ngheunant Sych tua 100m i'r Gogledd o Lwybr 6** Yn dechrau o Lwybr 6 drwy iard Cymerau Isaf ar hyd ffin ogleddol Parc Cymerau ac i'r gilfan ar y A496 yng Ngheunant Sych.	Baw ci ar y llwybr.	24.17.16	
08 **Cat.** **1/2** **1642m**	**O Lwybr 7 i'r A496 ym Mhont Dolwen.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 7 heibio rhaeadr Cymerau i'r A496 ym Mhont Dolwen. Mae cangen o'r llwybr yn arwain i'r mynydd agored.	Pyllau dwr yma ac acw hefo drain a rhedyn yn tyfu yn wyllt ar draws y llwybr.	24.07.16	Awgrymir torri'r rhedyn yn ei dymor.
09 **236m**	**O Allt Goch i Bron Elliw, Rhyd-y-Sarn.** Y llwybr yn dechrau o'r B4931, Allt Goch, 100m i fynnu'r allt o'r fynedfa i Ben Mount, heibio Bron Elliw i Rhyd Goch. Pedair adwy ar y llwybr.	Wedi cau hefo drain a phlanhigion gwyllt.	28.08.16	
10 **Cat.** **1/2** **1290m**	**O Lan Ffestiniog i'r Allt Goch.** Y llwybr yn dechrau ger Tŷ Isaf, trwy goed Tŷ Isaf, croesi Llwybr 11 ac allan i'r B4931 gyferbyn a mynedfa Pen Mount.	Mae coed wedi disgyn ar y llwybr ac wedi torri ffens sydd yn arbed bobol ddisgyn i lawr at yr afon. Tua - SH695416. Dim postyn arwydd rhwng Llwybr 10 ac 11. Dim arwydd ar i lawr wrth y giât yn tua SH699416. Mae'r coed oedd wedi disgyn ar y llwybr wedi cael eu clirio erbyn hyn. Ar ffens wedi cael ei drwsio.	10.09.16 4.02.17	Coed wedi eu clirio
11 **1176m**	**Allt Goch i Dalybont.** Y llwybr yn dechrau o'r troad cyntaf ar yr B4931, 150m i'r de orllewin o'r pentref, heibio bedd yr Arglwydd Newborough i Dalybont.	Dim arwydd rhwng Llwybr 10 ac 11. Coed wedi disgyn ar draws y llwybr yn tua - SH690417.	10.09.16	
12 **Cat.** **1/2** **129m**	**O Lwybr 10 i'r Afon.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 10 at y bont droed dros yr Afon Cynfal a'r terfyn plwy.	Y ffens wedi torri wrth y gamfa cyn y grisiau llechi sydd yn arwain am y bont bren dros yr afon.	10.09.16	

Llwybr	Lleoliad	Gwaith/sylw angen	Dyddiad Cerdded	Sylwad Pwyllgor Mwynderau
13	**O Lwybr 10 i Lwybr 15 Ddim ar y map**	Dim arwydd wrth y giât cysylltu hefo Llwybr 15.	30.12.16	Awgrymir yn gryf bod angen arwydd o Llwybr 10 i Llwybr 15
14 Cat. 1/2 957m	**O Lan Ffestiniog i'r Afon Cynfal.** Mae'r llwybr yn cychwyn o Lwybr 10 ger Tŷ Isaf ac yn arwain heibio Rhaeadr Cynfal i'r Afon Cynfal (Bont ddu).	Dim problem	10.09.16	
15 Cat. 1/2 359m	**O'r A470, Llan Ffestiniog i Lwybr 14.** Mae'r llwybr yn cychwyn yn agos a thrwy fuarth Glogwyn Brith i ymuno â Llwybr 14.	Dim arwydd hefo Llwybr 13.	10.09.16 30.12.16	Angen arwydd
16 Cat. 1/2 286m	**O'r A470, yn Lan Ffestiniog, cefn Tai Saron i Lwybr l4.** O Ben y Brysgyll yn arwain i ymuno â Llwybr 14.	Dim arwydd wrth Tai Saron nag wrth Lwybr 14.	30.12.16	
17 679m	**O Lwybr 15 i Dŷ'n Ffridd i ymuno â Llwybr 18.** Y llwybr yn cychwyn o Lwybr 15 ar hyd y rheilffordd heibio'r Wenallt i Dŷ'n Ffridd, yn croesi'r A470 ag ymlaen i ymuno â Llwybr 18	Dim arwydd hefo Llwybr 18 yn y Cefn.	29.10.16	
18 2079m	**O Tanrallt (Rhiw Tŷ'n Ffridd) i Ffordd gul Cwm Cynfal.** Y llwybr yn dechrau o waelod Rhiw - Tŷ'n Ffridd ar hyd y Cefn i ymuno â'r hen Ffordd Rufeinig gyda changen yn arwain at Dyddyn Gwyn Bach.	Dim arwydd wrth Tyddyn Gwyn Bach. A dim arwydd lle mae'r llwybr yn ymuno a'r cefn.	16.10.16 29.10.16	Angen arwyddion
19 3097m	**O Fron Goronwy i Lyn Dubach y Bont.** Y llwybr yn cychwyn ym Mron Goronwy heibio Bryn Llech croesi'r B4931, Ffordd Bala-Ffestiniog, ymlaen i'r De Ddwyrain o Lyn Morynion at ochr ddeheuol Llyn Dubach y Bont.	Dim arwydd wrth y ffordd tarmac sydd yn arwain at Bron Goronwy. Gamfa wedi torri rhwng Llyn Dubach y Bont a Llyn Morwynion. Angen postyn arwydd wrth y ffordd sydd yn mynd at dŷ Bryn Llech am fod pobol yn galw yn y tŷ i ofyn am gyfeiriad y llwybr.	15.10.16	Angen trwsio'r gamfa rhwng Llynnoedd Dubach a Morwynion. Awgrymir yn gryf gosod arwydd fel yr awgrymir yn yr adroddiad

Llwybr	Lleoliad	Gwaith/sylw angen	Dyddiad Cerdded	Sylwad Pwyllgor Mwynderau
20 **1330m**	**O'r B4931 ger Hafod Offeiriad i'r B4931 ger y grid gwartheg.** Llwybr March yn dechrau o bwynt ar Ffordd y Bala yn arwain tua'r dwyrain ac yn dod allan eto ger y grid gwartheg ar ffordd y Bala. Gyda changen yn ymuno â Llwybr 19 ger Llyn Morynion. Hen ffordd a gerddwyd gan George Borrow.	Mae angen postyn arwydd hefo Llwybr 118.	15.10.16	Angen arwydd
21 **10m**	**Capel Babell i Afon Cynfal.** Mae'r llwybr yn cychwyn yng Nghapel y Babell ac yn arwain at Blwyf Maentwrog.	Dim problem	15.10.16	
22 **2196m**	**O'r rhyd gyntaf heibio'r hen Gapel Babell i'r B4931 Bala-Ffestiniog.** Y llwybr yn dechrau o'r gyffordd ger Allt-y-Bryn, dilyn yr afon heibio Fferm Cwm ag ymuno a'r B4931 ger y grid gwartheg.	Gamfa wedi chwalu wrth fferm Cwm.	15.10.16	Angen gamfa ger Fferm y Cwm (wedi ei wneud?)
23 **2315m**	**O'r B4931 i'r terfyn plwyf.** Llwybr march yn cychwyn o ffordd Bala-Ffestiniog drwy gorlan ddefaid at y terfyn plwyf yng nghyffiniau Llyn Dywarchen. Mae hon yn hen ffordd.	Mae'r llwybr yma hefo corsydd tyfn perig yr holl ffordd at hen chwarel llechi Serw. Mae yn beryg iawn i gerddwyr ar ran fwyaf o'r rhan yma o'r Mignaint ar ôl llenwi'r ffosydd i mewn. Hefyd mae yna dyllau slei cyd lle mae ambell ffos wedi cael ei lenwi mewn. Mae angen arwyddion rhywbeth fel 'perygl corsydd' 'Danger swamp'!! Lle peryg i anifeiliaid a cherddwyr!!!	26.08.16	
24 **658m**	**O'r B4931 Ffordd Bala-Ffestiniog i chwarel Groes y Ddwy Afon.** Llwybr troed yn dechrau o'r B4931, Pont yr Afon Gam i chwarel Groes y Ddwy afon ac ymlaen i'r mynydd agored.	Corsydd!	26.08.16	

Llwybr	Lleoliad	Gwaith/sylw angen	Dyddiad Cerdded	Sylwad Pwyllgor Mwynderau
25 **838m**	**O Oakely View, Pantllwyd i ymuno â Llwybr 18**. Y llwybr yn dechrau ym Mhantllwyd i ymuno â Llwybr 18 ar Ben Cefn.	Dim arwydd wrth Oakeley view wrth y B4391. Angen postyn arwydd hefo Llwybrau 30, 29 ac 28.	16.10.16	
26 **493m**	**O Lwybr 18 i Lwybr 29 ar draws y maes golff.** Y llwybr yn cychwyn o bwynt ar Lwybr 18 i ymuno â Llwybr 29.	Angen arwyddion hefo Llwybrau 28 ac 29.	16.10.16	
27 **431m**	**O Lwybr 25 ym Mhantllwyd i Lwybr 26 uwchben Tŷ'n Ffridd.** Y llwybr yn cychwyn o bwynt ar Lwybr 25 i ymuno Llwybr 26.	Dim problem	16.10.16	
28 **277m**	**O Lwybr 25 i Lwybr 29 ar Ben Cefn.** Y llwybr yn cychwyn ar bwynt ar Lwybr 25 i ymuno Llwybr 29.	Angen arwyddion.	16.10.16	
29 **1477m**	**O Lwybr 18 Pencefn, i ymuno a ffordd Pencefn ar y meincnod (hen Sarn Helen).** Y llwybr yn dechrau ar Pencefn, croesi Llwybr 25 ac yn ymuno a Ffordd Pencefn, gyda changen yn mynd o amgylch Llyn-y-Cefn i ymuno â Llwybr 30 i Ben Ffridd.	Dim problem ond dim postyn arwydd hefo Llwybr 25 a 28.	16.10.16	
30 **602m**	**O lwybr 25 i gefn yr B4931 ym Mhen y Ffridd.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 25 ar y B4931 ym Mhen y Ffridd.	Dim problem	16.10.16	
31 **934m**	**O'r A470 ger cyffordd Pen y Bont at y B4931 uwchben Pantllwyd.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o ffordd Blaenau, yn croesi'r rheilffordd gyda changen yn agos i Lety Fadog, ac yn ymuno â'r B4931 mewn dau bwynt.	Dim problem.	26.12.16	

Llwybr	Lleoliad	Gwaith/sylw angen	Dyddiad Cerdded	Sylwad Pwyllgor Mwynderau
32 **Cat** **1/2** **1463m**	**O Rhydsarn i'r A496 ar y Ceunant Sych.** Y llwybr yn cychwyn yn Rhydsarn dros bont droed Afon Teigl ac yn arwain at yr A496 yng Ngheunant Sych ar ddau bwynt.	Dim arwydd hefo Llwybr 35.	28.08.16 03.09.16 30.12.16	
33 **Cat.** **1/2** **758m**	**O Lwybr 32 i Gapel Gwyn a'r Allt Goch.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 32 ac yn arwain heibio Plas Meini hyd at Capel Gwyn ac yn ôl i'r B4931 ar yr Allt Goch i'r gogledd-orllewin o Fryn Llewelyn.	Llwybr wedi cau hefo drain, rhododendron a choed gwyllt uwchben Plas Meini. (Tir Plas Meini) Mae'r coed gwyllt wedi eu clirio erbyn hyn. Ond mae postyn ffens sydd ar ganol y gamfa sydd yn dilyn i fynnu o Plas Meini yn rhydd. Tydi ddim wedi ei yrru i mewn i'r ddaear yn iawn. Ond mae yn iawn i beidio gafael yn y postyn wrth groesi.	28.08.16 01.01.17	Drain a rhododendron wedi eu clirio ond y postyn ar y gamfa yn dal yn rhydd.
34 **674m**	**O'r Bont droed Llwybr 32 at Lwybr 37** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 32 Pont Plas Meini hyd glan yr afon a'r coed i ymuno â Llwybr 37.	Dim arwydd lle mae yn cyfarfod Llwybr 32 wrth y bont	03.09.16 30.12.16	Awgrymu arwydd ble mae'n cyfarfod a Llwybr 32
35 **Cat.** **1/2** **1011m**	**O Lwybr 32 i Pandy.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 32 trwy Goed Pengwern, yn croesi Llwybr 37 heibio'r rhaeadr ac ymlaen at Pandy.	Mae'r pren 3x2 sydd ar dop y gamfa gyntaf wrth hen leoliad pont Cae Blaidd/Blaen Ddol wedi torri. Ond mae y steps yn oce. Mae ffens wedi malu wrth y gamfa ail o leoliad pont Cae Blaidd/Blaen Ddol. Mae coeden fechan wedi disgyn ar draws y llwybr islaw o'r gamfa sydd ger lleoliad pont Cae Blaidd heibio Llwybr 37.	27.08.16 30.12.16	Angen cywiro'r gamfa – coeden wedi disgyn ar draw y llwybr
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**

36 **Cat.** **3** **1306m**	**O'r A496 ger y Tyrpeg Newydd, i goedydd Pengwern.** Y llwybr yn dechrau o'r Ceunant Sych i Goed Pengwern gyda changen yn rhedeg gyda'r nant i'r gogledd ddwyrain.	Coeden wedi disgyn ar y gamfa gyntaf o Tyrn Peic newydd. A dim pont dros yr afon wrth y gamfa. Coed wedi disgyn ar draws y llwybr ar y rhan serth sydd yn dilyn o Lwybr 35 tua -sh432698. Oes dim arwydd o Lwybr 35 at Lwybr 36. Mae angen arwydd 'dim mynediad' lle mae'r llwybr yn darfod wrth giât cae yn fferm Pengwern am fod dim llwybr cyhoeddus yn ymuno at Lwybr 37. Mae Mrs Dawson, fferm Pengwern yn gofyn ydi hyn yn bosib gwneud hyn am fod cerddwyr yn croesi'r cae ac yn cynhyrfu ei defaid. Mae'r goeden oedd wedi disgyn ar y gamfa wedi ei chlirio erbyn hyn. Ond mae'r coed sydd wedi disgyn yn bellach i mewn yn dal yna.	27.08.16 01.01.17	
37 **Cat.** **1/2** **1442m**	**O Lwybr 68 i Ben y Bont.** Llwybr March yn dechrau ger Coed y Cribau heibio Pengwern Hall, yn croesi Llwybr 35 a'r Afon Teigl, ymlaen i Blaenddol a heibio Caer Blaidd i Ben y Bont a Ffordd Bryn Rhug.	Rhedyn tyfn wrth gamfa at Lwybr 68. Pont sydd i fod dros yr afon yn dilyn o Blaen Ddôl wedi hen fynd yn dangos fel llwybr dros yr afon. Ydwyf yn credu dyla' newid rhif y rhan yma o'r Llwybr 37 i hwyrach 371 er mwyn bod ar wahân i Lwybr 37. Hefyd arwydd llwybr cyhoeddus wedi ei rhoi ar bostyn ffens wrth Sh702426 yn arwyddo i'r dde at Pandy. Does ddim llwybr cyhoeddus ar y map yn y cyfeiriad yma? Mae yn bosib fod postyn arwydd wedi cael ei ddefnyddio i drwsio'r ffens.	06.08.16 27.08.16 03.09.16 30.12.16	Tynnu'r arwydd camarweiniol
38 **819m**	**O'r A470 ym Mhont y Pandy i Deiliau Mawr.** Mae'r ffordd March yn cychwyn o Bont y Pandy heibio Teiliau Bach a chroesi'r rheilffordd at Teiliau Mawr.	Dim postyn arwydd hefo Llwybr 39.	26.12.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
39	**O Lwybr 38 i Ffordd Cwm Teigl.**	Dim postyn arwydd o Llwybr 38.	26.12.16	

392m	Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 38 ger Teiliau Bach croesi'r rheilffordd i ymuno a ffordd Cwm Teigl i'r gogledd ddwyrain o Hen Gapel.			
40 **Cat.** **3** **3981m**	**O Ffordd Teigl i'r terfyn Plwyf.** Y llwybr march/ troed yn dechrau o bont Nant Llyn Morynion ar Ffordd Teigl, yn croesi Llwybr 44 ger Hafod Ysbyty i ymuno a Sarn Helen at y terfyn plwyf islaw Chwarel Rhiw Bach.	Mae'r llwybr yn gorslyd yn y rhan uchaf at hen chwarel Rhiwbach.	22.10.16 27.12.16	
41 **1107m**	**O Lwybr 38 ger Teiliau Mawr i Sarn Helen ar ffordd gul Cwm Cynfal.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Deiliau Mawr trwy Ysgoldy (Min-afon), yn croesi Ffordd Bwlch uwchben Pant yr Hedydd, yn croesi Llwybr 40 i ymuno â Llwybr 42 ger Tŷ Nant y Beddau cyn croesi'r B4931 i ymuno â Sarn Helen ar ffordd gul Gwm Cynfal.	Dim arwydd na chamfa rhwng Tŷ Nant y Beddau ac y B4391. Nag o'r B4391 at y ffordd sydd yn dilyn am Bont Newydd. Dim arwydd na chamfa o'r ffordd gul Bont Newydd yn tua SH721423. Hefyd dim arwydd am y Sarn Helen o'r B4391.	27.12.16	Angen camfeydd fel nodir yn yr adroddiad
42 **689m**	**O Ffordd Teigl i Lwybr 41 ger Tŷ Nant y Beddau.** Y llwybr troed yn dechrau ger pont Nant Llyn Morynion ar Ffordd Teigl i ymuno gydâ Llwybr 41 ger Tŷ Nant y Beddau.	Dim arwydd hefo Llwybr 41.	27.12.16	
43 **1768m**	**O Lwybr 40 i'r Gogledd o Feddau Gwyr Ardudwy at Sarn Helen.** Mae'r llwybr march yn dechrau o Lwybr 40 drwy'r beddau, yn ymuno â Sarn Helen at ffordd gul Cwm Gynfal ger Bron Erw.	Mae postyn marcio ymuno hefo Llwybr 49 wedi pydru i ddim. A dim arwydd ymuno hefo Llwybr 44.	22.10.16 23.10.16	Angen postyn marcio newydd
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
44 **1311m**	**O Lwybr 43 i Ffordd Bwlch.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 43 ger Beddau	Dim postyn arwydd hefo Llwybr 45.	22.10.16	Mae angen gwneud

	Gwyr Ardudwy, ymlaen heibio Hafod Ysbyty i ymuno â Ffordd Bwlch yng Nghwm Teigl.	Mae'r gamfa llechan sydd yn dechrau o ffordd Bwlch angen sylw i'w wneud yn saff.	27.12.16	y gamfa lechen yn saff
45 Cat. 1/2 834m	**O Lwybr 44 i'r gogledd o waith Trin Dŵr Garreglwyd at Lwybr 40.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 44 ac yn arwain i'r gogledd ddwyrain at Rhyd-yr-Helen, rhan o Sarn Helen.	Dim problem	22.10.16	
46 cat. 1/2 1472m	**O Lwybr 44 i'r gogledd o waith Trin Dŵr Garreglwyd at Lwybr 45.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 44 ac yn arwain at Lwybr 45 yn Rhyd-yr-Helen. Mae cangen yn arwain o Fryn y Castell islaw Chwarel y Drum at Afon Gamallt.	Dim problem	22.10.16	
47 Cat. 3 1620m	**O Ffordd Bwlch at Lynnau'r Gamallt.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o ffordd Bwlch drwy'r hen chwarel, croesi Sarn Helen ac i'r dwyrain at lynnau'r Gamallt.	Dim arwydd ar ffordd Bwlch (Cwm Teigl).	22.10.16	Mae angen arwydd ar y postyn
48 1733m	**O Lwybr 47 ger Llyn Bach Gamallt i'r terfyn Plwyf.** Mae'r llwybr yn dechrau o Lwybr 47 i'r terfyn Plwyf, gyda changen yn arwain i'r de at Lyn Mawr y Gamallt.	Braidd yn gorslyd mewn rhannau.	22.10.16	
49 2474m	**O Lwybr 43 (Sarn Helen) i Garreg y Foel Gron.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 43 i'r gogledd o Bistyll Caledrhyd dros y B4931, ymlaen heibio glannau gogledd dwyreiniol Llyn Morynion i Garreg y Foel Gron.	Postyn arwydd ymuno hefo Llwybr 43 wedi pydru i ddim. A dim arwydd ymuno hefo Llwybr 50.	15.10.16 23.10.16	Angen arwydd newydd
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
50 1508m	**O Lwybr 43 Ger Bryn Llech at Lwybr 44 ger gwaith Trin Dŵr Garreglwyd.** Mae'r llwybr troed yn dechrau i'r gogledd o Fryn	Dim problem.	15.10.16	

	Llech croesi'r B4931 â Llwybr 49 ger Chwarel Bryn Glas, heibio Garreglwyd ac ymlaen at safle gwaith Trin Dŵr.			
51	**O Swyddfa'r Post yn Llan Ffestiniog i Highgate.** Mae'r llwybr troed yn cychwyn ar bwynt ger Swyddfa'r post ac yn arwain ar draws y banc uchel i Highgate, gyda changen yn arwain at Dŷ Nant ac un arall sy'n arwain at yr A470 gyferbyn â Capel Peniel.	Dim problem.	30.12.16	
52 Cat. 1/2 2259m	**O'r A470 i Ffordd Bwlch.** Y llwybr yn dechrau ger Cartref croesi'r rheilffordd heibio Teiliau Mawr a Bryn Wennol croesi Llwybr 53 i Ffordd y Bwlch.	Dim postyn arwydd wrth Lwybrau 54, 53. Llechan sydd yn croesi'r afon wrth gamfa ger y rheilffordd mewn cyflwr peryg. Mae'r ffens newydd yn ardd Bryn Wennol wedi ei osod braidd yn rhy gul wrth y giât i gerddwyr fynd heibio.	26.12.16	Mae'r lechen yn berygl
53 Cat. ½ 1843m	**O'r A470 ger Hendre Ddu i Ffordd Bwlch.** Mae'r llwybr troed yn dechrau yn Hendre Ddu ac yn arwain dros y rheilffordd drwy Bryneithin yn croesi Llwybr 52 ger Cae Canol Mawr ac ymuno â ffordd Bwlch.	Mae'r arwydd oedd ar bostyn metal ar ffordd Bwlch wedi ei dynnu i ffwrdd. Ac mae'r step isaf ar y gamfa wrth afon Teigl wedi pydru. Dim arwydd hefo Llwybr 63, 62, a 52.	26.12.16	Ail osod yr arwydd a all fod wedi ei dynnu'n fwriadol. Trwsio'r gamfa
54 Cat. 3 2884m	**O Lwybr 52 ger Cae Canol Mawr i Chwarel Bwlch.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 52 ger Cae Canol Mawr ymlaen rhwng bronnau'r Manod, heibio Llyn Manod ac ymlaen i Graig-Ddu a Chwarel Bwlch.	Dim arwydd yn chwarel Bwlch. Dim postyn arwydd hefo Llwybr 56 wrth lyn Manod. A dim postyn arwydd wrth Lwybr 52 sydd yn arwain at ffordd Bwlch.	20/11/16 26.12.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
55 369m	**O Ffordd Bwlch i'r terfyn.** Y llwybr troed yn dechrau ar bwynt ar Ffordd Bwlch ac yn arwain i Fwlch Garreg y Fran, ger Chwarel Bwlch i'r terfyn.	Dim problem.	20.11.16	
56 Cat.	**O Cae Clyd yn Fronoleu, i Lwybr 60 ger Chwarel**	Mi fysa postyn arwydd wrth Llyn Dŵr Oer yn arwain at lyn Dubach	20/11/16	Argymell arwydd o Llyn Dŵr Oer yn

1/2 **3561m**	**Diffwys.** Y llwybr yn dechrau yng Nghae Clyd heibio Bron Manod arwain i'r gogledd o Fryn Eithin rhwng bwlch y Manod ac ar hyd ochr ddwyreiniol Llyn Manod i Chwarel Graig Ddu i'r dwyrain o Lyn Dŵr Oer ac ymlaen i ymuno â Llwybr 60 yn chwarel Diffwys.	yn help. O Bron Manod at lyn Manod. Dim problem.	26.12.16	arwain at lyn Dubach
57 **1258m**	**O Lwybr 56 i Hafod Ruffydd.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 56 ger Llyn Dubach ac yn arwain i'r de orllewin at Hafod Ruffydd.	Anodd dilyn y llwybr gwreiddiol i lawr o lyn Dubach i lawr at ben inclein 1 Graig Ddu. Mae angen gamfeydd dros y ffensys yn ambell i le.Mae tyfiant gwyllt angen ei drin wrth wal y tŷ lle mae'r llwybr yn rhedeg yn Hafod Ruffydd am ei fod yn culhau'r llwybr.	20/11/16	Angen camfeydd. Angen tocio'r tyfiant gwyllt wrth wal y ty ger Hafod Ruffydd rhag culhau'r llwybr.
58 **Cat.** **1/2** **148m**	**O Hafod Ruffydd at y Stryd Fawr.** Mae'r llwybr troed yn dechrau yn Hafod Ruffydd - Penhafodlas heibio Tabernacl Terrace i'r Stryd Fawr.	Dim problem	17.12.16	
59 **Cat.** **1/2** **250m**	**O Lwybr 58 at rhesdai Tan yr Allt.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 58 ger Fuches Wen ac yn arwain i'r gogledd-orllewin i Deras Tan yr Allt.	Dim problem.	17.12.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
60 **Cat.** **1/2** **3865m**	**O Deras Tan y Clogwyn i'r terfyn.** Y llwybr yn dechrau yn Nhan-y-Clogwyn ac yn arwain i'r gogledd ddwyrain heibio Bryn Egryn a Chwarel Diffwys, heibio Llyn Newydd i'r terfyn, gyda changen yn	Corsydd o Lwybr 102 at lyn Newydd. Dim arwyddion lle mae yn ymuno a Llwybr 119. Dim arwyddion yn Bryn Egryn yn arwain am lyn Dubach nag am Tan Clogwyn. Corsydd a brwyn trwchus rhwng Bryn Egryn a Tan Clogwyn a baw ci ofnadwy wrth y tŷ ger yr arwydd	30.10.16 05.11.16 17.12.16	Baw ci yn broblem enfawr yma. Y llwybr yn fler i feddwl ei fod yn categori 1/2

	arwain at Lyn Bowydd.	yn Tan Clogwyn.		
61 **305m**	**O Tŷ Mawr-Bryn Glas i Lwybr 64 (i'r dde o Gae Clyd)** Mae'r llwybr troed yn dechrau yn Nhŷ Mawr heibio'r hen Ysgol Sul i Lwybr 64 i ymuno â Llwybr 63.	Dim arwydd hefo Llwybr 64.	26.12.16	
62 **Cat.** **1/2** **2569m**	**O'r A470 yn Fronlas i Lwybr 53 i'r de o Gae Du.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ar bwynt ar yr A470 ger Fronlas, yn croesi'r rheilffordd ac yn arwain trwy Cae Du ac ymlaen i ymuno â Llwybr 53.	Dim Problem	26.12.16	
63 **1045m**	**O Lwybr 61 i Lwybr 52 ger Bryn Wennol.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 61 ac yn croesi Llwybr 53 ac ymlaen i Frondirion a Chae Du i ymuno â Llwybr 52 ger Bryn Wennol.	Dim arwydd hefo Llwybrau 53 a 52.	26.12.16	
64 **543m**	Ffordd Cae Du – Cae Clyd **O groesfan y rheilffordd ger Fron Las i'r Gogledd o Gae Clyd.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ger Fron Las yn croesi llwybr 63 ag ymlaen i Gae Clyd ag i'r mynydd.	Dim arwydd hefo Llwybr 63.	26.12.16	
65 **509m**	**O'r A496 ger Beudy Llwyn Crai i'r A470 ger Gwernant.** Y llwybr yn cychwyn ger Beudy Llwyn Crai, heibio Llwyn Crai i fynnu at Tŷ Newydd Ffynnon i ymuno â'r A470 ger Clogwyn Rhos a Gwernant.	Dim problem	28.12.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
66 **356m**	**O Lwybr 68 ar yr A496, i ymuno â Llwybr 65 yn Llwyn Crai.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 68 i'r de o Goed y Cribau, heibio Maes y Coed ac yn croesi'r A496 wrth y fynedfa ac yn arwain i'r gogledd ddwyrain i ymuno â	Dim problem. Ond mae Mr Jones Llwyn Crai yn gofyn ydi yn bosib i'r cyngor trin pont cofeb Ellis Peintar hefo preservative o riw fath'? Am fod y railings yn dechrau pydru. Creosot, neu rhiwbeth tebyg.	28.12.16	Angen gwaith ar ganllaw y bont.

	Llwybr 65.			
67 **516m**	**O ffordd Bryn Rhug ger Pengwern Hall i Lwybr 65 ger Llwyn Crai.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o ffordd Bryn Rhug ac yn arwain i'r Gogledd Ddwyrain i ymuno â Llwybr 65 ger Llwyn Crai.	Dim arwydd ger y gamfa o Llwybr 65 ac mae y railings wedi malu wrth gamfa hefyd.	28.12.16	Y gamfa angen sylw
68 **2566m**	**O'r A496 ger Maes y Coed - Henblas, i'r B4414 ger pont Tŷ'n y Cefn.** Mae'r llwybr troed (rhan o hen ffordd y plwy) yn cychwyn ger Maes y Coed i ymuno â'r B4414 i'r de o Bont Tŷ'n y Cefn.	B4414 at Lwybr 37. Rhedyn wrth y gamfa Ll.37 Maes y Coed at Ll.37 Rhododendron yn tyfu yn gryf ar hyd y llwybr heibio cefn ty Maes y Coed.	6.8.16 28.12.16	Y broblem Rhododendron mewn llaw, i gadw llygad ar y sefyllfa.
69 **659m**	**O Lwybr 68 Henblas (islaw Coed y Cribau) i Lwybr 70 ym Mwlch locyn.** Y llwybr yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 68 ac yn mynd ar hyd ymylon gogleddol Coed y Cribau i ymuno â Llwybr 70 ym Mwlch locyn.	Dim arwydd hefo Llwybr 68.	27.08.16 22.01.17	
70 **Cat.** **1/2** **1703m**	**O'r B4414 i Dyddyn Gwyn.** Y llwybr yn dechrau o'r B4414 yn arwain heibio Bwlch locyn i Dan y Bryn. O Dan y Bryn mae'n croesi Llwybrau 71 a 73 heibio Neuadd Ddu a chroesi'r rheilffordd. Dwy gangen yn dod allan i Dyddyn Gwyn, Manod.	Rhedyn trwchus o Lennyrch y Moch am tua 200llath i lawr Llwybr 70. Japanese Knotweed yng nghefn murddun hen dŷ Lennyrch y Moch tua. SH702446. Drain ofnadwy o gamfa Tan y Bryn i fynu at y giât gyntaf	06.08.16 27.08.16 29.1.17	Gweithwyr ar y llwybrau i beidio a ymgymryd a'r Llysiau'r Dial
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
71 **838m**	**O Lwybr 70 ger Bwlch locyn i Lwybr 72 yng nghoed Cwmbowydd.** Mae'r llwybr yn dechrau o Lwybr 70 ac yn arwain at Lennyrch y Moch ac ymlaen i ymuno â Llwybr 72	Dim arwydd hefo Llwybr 70.	27.08.16	
72 **1547m**	**O'r A496 ym Mhont Tŷ'n y Cefn i Bont Frongoch.** Mae'r llwybr yn dechrau	Dim problem ar y llwybr ond Japanese knotweed yn tyfu mewn ynys ar afon Bowydd yn tua	06.08.16 29.1.17	

	ym Mhont Tŷ'n y Cefn drwy Dan y Bryn, o dan goed Cwmbowydd, ar hyd Afon Bowydd, ysgubo i'r gogledd ddwyrain i ymuno â Llwybr 75 ym Mhont Frongoch.	SH697446.		
73 **831m**	**O'r A470 yng Nghongl y Wal i Lwybr 72 yn Cwmbowydd.** Y llwybr yn dechrau o Gongl y Wal ac yn arwain o dan y rheilffordd, i lawr y grisiau i'r A487, ar draws hyn a chodi Llwybr 74 cyn mynd heibio Tŷ Coch a chroesi Llwybr 70 a thrwy goed Cwmbowydd i ymuno â Llwybr 72.	Dim problem	27.08.16	
74 **358m**	**O Dyddyn Gwyn i Lwybr 73 ger Clogwyn y Wylfa.** Y llwybr yn dechrau yn Nhyddyn Gwyn, dros bont y rheilffordd, yn arwain i'r gorllewin o orsaf Manod i ymuno â Llwybr 73 yn Glogwyn y Wylfa.	Dim problem	27.08.16	
75 **Cat.** **1/2** **613m**	**O Lwybr 70 yn Neuadd Ddu i Lwybr 72 yn Frongoch.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 70 rhedeg i'r gogledd i ymuno â Llwybr 72. Mae cangen yn arwain i lawr at bont reilffordd Neuadd Ddu, y gangen yma yn ffordd March.	Dim arwydd heibio Fron Goch.	06.08.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
76 **Cat.** **1/2** **832m**	**O Bont Frongoch i Lwybr 78 i'r gorllewin o Fferm Cwmbowydd.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ger Pont Frongoch ac yn arwain i'r gorllewin, i'r gogledd o Ffermdy Cwmbowydd i ymuno â Llwybr 78. Gangen yn ymuno â Llwybr 77.	Dim problem	06.08.16	
77 **Cat.**	**O Heol Wynne i Danygrisiau.**	Corslyd o Tŷ'n Ddôl at Lwybr 88	06.08.16	

1/2 1592m	Mae'r llwybr troed yn dechrau yn Heol Wynne, dros Garreg Defaid i Cwmbowydd, gan groesi Llwybr 76 i'r gogledd ddwyrain o Fferm Cwmbowydd ac yn pasio i'r de o'r ffermdy cyn croesi Llwybr 78 a rhedeg i'r gorllewin i Dŷ'n Ddôl a dros y A496 ac ymlaen i Cambrian Terrace.	ond dim problem Fel arall.	11.08.16	
78 Cat. 1/2 1792m	**O Drem Bowydd i Ddolwen**. Mae'r llwybr troed yn dechrau o Drem Bowydd ac yn rhedeg i'r de drwy Cwmbowydd, gan groesi yn gyntaf Llwybr 77 ac wedyn Llwybr 79 yn Llys Dorfil i ymuno â'r A496 yn Nolwen.	Dim problem	06.08.16	
79 881m	**O Lwybr 78 Llys Dorfil i'r A496 yn Nhanygrisiau.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 78 yn Llys Dorfil ac yn arwain i'r gorllewin i ymuno â'r A496 ger Moelwyn View ar Ffordd Pen Cefn.	Corsydd i fynu am tua 100 llath o Lwybr 78.	06.18.16	
80 Cat. 1/2 711m	**O'r A496 yn Nolwen i Ben Cefn.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ar bwynt ar yr A496 yn Nolwen i ailymuno â'r A496 ym Mhen y Cefn.	Drain wrth y giat ger yr A496	06.08.16	Y drain wedi eu torri
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
81 155m	**O'r A496 ym Mhen cefn i'r hen domen sbwriel.** Ffordd march yn dechrau ger Moelwyn View ag yn rhedeg i'r gogledd ddwyrain i'r hen domen sbwriel.	Dim problem.	29.08.16	
82 2102m	**O Lwybr 77 ger Tŷ'n Ddôl i Ffordd Brynbowydd Newydd.** Y llwybr yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 77 yn mynd i'r gogledd ddwyrain drwy chwarel ithfaen Cefn	Cefn Bychan at Tŷ'n Ddôl. Dim problem Bryn Bowydd at Cefn Bychan	11.09.16 29.12.16	

	Bychan ac ymlaen i Bryn Bowydd Newydd.			
83 Cat. 1/2 1905m	**O'r A496 ger Maes Neuadd i Lwybr 4 ger Bythynnod y Twnnel.** Mae'r llwybr troed yn cychwyn ar bwynt ger Maesneuadd ac yn gorffen ger Bythynnod y Twnnel ar Lwybr 4.	Coedan wyllt yn tyfu ar draws y bont wrth y'r A496.	29.08.16	Angen torri'r goeden
84 Cat. 1/2 867m	**O Lwybr 82 ger Chwarel Cefn Bychan, i Lwybr 88 ger Dolrhedyn.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 82 yn croesi'r A496 ac at Felin Moelwyn / Afallon, ar draws y ffordd ac o dan y rheilffordd i Fodychain i ymuno â Llwybr 88 i'r gogledd ddwyrain o Ddolrhedyn.	Dim problem	11.09.16 09.10.16	
85 **228m**	**O Lwybr 82 i Lwybr 84 ger Cefn Bychan.** Y llwybr yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 82 ac yn arwain tua'r gogledd i ymuno Llwybr 84.	Dim problem	11.09.16	
86	**O Lwybr 77 ger Pont Tŷ'n y Ddôl i Lwybr 84.** **Nid ar y map**, wedi ei ddargyfeirio yn y 1950au	Wedi gwneud fy ffordd o lwybr 77 at Lwybr 84. Dim ar y map am fod pethau wedi newid ar y tir.	17.12.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
87 Cat. 1/2 3656m	**O Groesffordd, i'r terfyn ger Chwarel Lechi Rhosydd Newydd.** Y llwybr yn cychwyn yng Nglan y Pwll, i'r de o Haygarth, dan Nyth y Gigfran, yn rhedeg i'r de orllewin ac ymlaen i Lyn Cwmorthin, gan groesi Llwybr 95 yn Rhosydd a gadael y plwyf ger Bwlch y Rhosydd.	Mae'r llwybr swyddogol ar y map o gapel Cwmorthin i fynu at farics llawr 9 Rhosydd mewn cyflwr perig i'w gerdded. Dyla' fod y rhan yma o'r llwybr yn cael 'diversion' i fynu y trac sydd yn mynd heibio hen chwarael Conglog ayb. Oes neb yn defnyddio y rhan yma o'r llwybr. Fel arall dim problem.	08.10.16 09.10.16	Mae angen dadgyfeirio'r llwybr o bosib i fynny Ffordd Rhosydd.
88 Cat. 1/2 758m	**O Resdai Cwmorthin i gyffordd Llwybr 87 ger Croesffordd.** Y llwybr yn dechrau o	Dim arwydd hefo Llwybr 84 ac 87.	09.10.16	

	Ffordd Cwmorthin heibio ddiwedd rhesdai Ddolrhedyn, ar hyd bron y mynydd i'r gorllewin o Fodychain i ymuno â Llwybr 87 ger Croesffordd.			
89 **405m**	**O Ffordd Cwmorthin, Dolrhedyn i Lwybr 93 ym Mryn Elltyd.** Y llwybr yn dechrau o ffordd Cwmorthin dan fron y bryn, ar draws Afon Cwmorthin ger Tŷ Ffowndri, heibio'r rhaeadrau ac ymlaen i ymuno â Llwybr 93 ger Bryn Elltyd.	Dim problem	24.09.16	
90	**O faes parcio Dolrhedyn i Lwybr 87 ger y rhaeadr.** Ffordd March yn cychwyn ar ddiwedd Ffordd Cwmorthin ac ymlaen i ymuno â Llwybr 87.	Dim arwydd lle mae'r llwybr yn dechrau wrth faes parcio Cwmorthin.	09.10 16	
91 **Cat.** **1/2** **2289m**	**O Lwybr 90 ym Mhont y Friog i Lwybr 93 ger Afon Stwlan.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 90 uwchben Dolrhedyn i ymuno â Llwybr 93 islaw Llyn Stwlan**.**	Dim problem	08.10.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
92 **Cat.** **1/2** **2321m**	**O Lwybr 91 i'r terfyn ym Mwlch Stwlan.** Y llwybr yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 91 arwain i'r gorllewin i fyny Moel yr Hydd ac yn croesi Llwybr 95 i'r dde o Lyn Wrysgan a dros y terfyn ger Bwlch Stwlan.	Dim arwydd o ffordd Stwlan a Llwybr 96.	08.10.16	Angen arwydd o ffordd Stwlan.
93 **2102m**	**O Fryn Elltyd i Lwybr 92 uwchben yr hen inclein i'r de orllewin o Lyn Stwlan.** Y llwybr yn cychwyn ym Mryn Elltyd ac yn arwain ymlaen i ymuno â Llwybr 92 cyn gadael y plwyf ym Mwlch Stwlan.	Dim arwydd o ffordd Stwlan (Llwybr 91)	24.09.16 11.12.16	

94 **1004m**	**O Lwybr 4 ger chwarel y Moelwyn i Lwybr 93** Y llwybr yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 4 ger chwarel y Moelwyn ac yn arwain i'r gogledd orllewin cyn ymuno â Llwybr 93 i'r dwyrain o Garreg Flaen Llym.	Dim problem	24.09.16	
95 **Cat.** **1/2** **2058m**	**O Lwybr 87 Chwarel Rhosydd Newydd i dir ger Carreg Flaen Llym.** Y llwybr yn dechrau o Chwarel Rhosydd Newydd ac yn arwain i'r dde a chroesi Llwybrau 96, 92, a 93 ac yn arwain ymlaen i'r tir agored yn y mynydd dan Garreg Flaen Llym.	Dim problem	24.09.16	
96 **Cat.** **1/2** **890m**	**O Lwybr 92 dan Foel yr Hydd i'r terfyn i'r de o Chwarel Rhosydd.** Y llwybr yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 92 dan Moel yr Hydd ac yn arwain i gyfeiriad gogledd orllewinol, gan groesi Llwybr 95 ac ymlaen at y terfyn plwy i'r de o Chwarel Rhosydd.	Dim arwydd o Llwybr 92.	11.12.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
97 **Cat.** **1/2** **682m**	**O Lwybr 96 i Lwybr 92.** Mae'r llwybr troed yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 96, drwy'r creigiau i ymuno â Llwybr 92 dan Graig Ysgafn.	Mae'r arwyddion 'mae'r llwybr mewn cyflwr perygl' wedi mynd yn amhosib i'w darllen. Mae y rhan yma o'r llwybr yn berig am fod tu mewn hen chwarel Rhosydd wedi chwalu. Does dim llawer o drwch rhwng llawr y llwybr a tho'r chwarel tan ddaear. 'Rwyf wedi bod tan ddaear yn gweld y rhan yma or chwarel ac mae peryg ofnadwy i'r llwybr ddiflannu i'r twll!	11.12.16	Yr arwyddion 'Perygl' angen eu hadnewyddu
98 **Cat.** **1/2** **200m**	**O Lwybr 99 (i'r gogledd o Chwarel Rhosydd) i'r terfyn plwy.** Y llwybr yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 99 i gyfeiriad y gorllewin ac yn	Dim problem	08.10.16	

	gadael y plwyf i'r dde o Lyn Clogwyn Brith			
99 Cat. 1/2 647m	**O Lwybr 87 ger Barics Rhosydd at y Terfyn ger Llyn Cwm Corsiog.** Y llwybr yn dechrau ar bwynt ar Lwybr 87 ym marics Chwarel Rhosydd gan deithio i'r gogledd tuag at Lyn yr Adar a gadael y plwyf i'r dde orllewin o Lyn Cwm Corsiog.	Dim problem	08.10.16	
100 1249m	**O'r terfyn (i'r Gogledd o Lyn Coch,) i'r Mynydd Allt y Ceffylau.** Y llwybr yn dechrau o'r terfyn i'r gogledd o Lyn Coch yn rhedeg i'r dwyrain ychydig i'r de o Foel Druman ac i'r gogledd o Lyn Conglog i'r ardal yn y mynydd rhwng yr Allt Fawr ag Allt y Ceffylau.	Craciau peryg yn y ddaear is law i'r hen dam chwarel Cwmorthin.	08.10.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
101 2562m	**O'r A470 yn Nhalwaenydd at Lynnau'r Barlwyd.** Y llwybr yn dechrau o ddau bwynt ar yr A470 yn Nhalwaenydd yn arwain i gyfeiriad de dwyreiniol at yr afon Barlwyd, yna ar hyd y lan dwyreiniol a chroesi'r afon, wedyn yn rhedeg at Lynnau'r Barlwyd.	Dim problem heblaw am y corsydd yma ac acw ar y llwybr swyddogol.	30.10.16	
102 2107m	**O Lwybr 101 i'r terfyn ger Moel Penamnen.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 101 i'r dde o Lynnau Barlwyd, ac yn gadael y plwyf yng nghornel gogledd ddwyreiniol Moel Penamnen.	Braidd yn gorslyd mewn mannau.	30.10.16	

103 **982m**	**O Lwybr 119 ger Chwarel Maenofferen i Lwybr 101.** Y llwybr yn dechrau o Lwybr 119 i'r gogledd o Chwarel Maenofferen ac i'r gogledd orllewin i gyfeiriad Talwaenydd cyn ymuno â Llwybr 101.	Corsydd ofnadwy mewn rhanau. Dim arwyddion yn Llechwedd ger yr ail zip wire.	30.10.16	
104 **Cat.** **1/2** **1252m**	**O Deras Devon i Chwarel Maenofferen.** Y llwybr yn cychwyn ym mhen uchaf rhesdai Devon ac yn arwain i'r gogledd ddwyrain at Chwarel Maenofferen.	Dim arwydd o Lwybr 119 ac 103. Mae Rhododendrons angen eu torri yma ac acw i fynu y rhan or llwybr sydd wrth ochr inclein Rhiwbach.	05.11.16 17.12.16	Mae angen totti'r Rhododendron yn ol. Yr arwydd 'diwedd y Llwybr' angen ei adnewyddu
105	**O Dai Uncorn i ymuno â Llwybr 103 uwchben cronfa ddŵr.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o dai Uncorn ac yn arwain tua'r gogledd gyda dwy gangen yn mynd at chwareli'r Llechwedd. **(Nid ar y map diffiniol)**	Wedi gwneud fy ffordd o deras Uncorn i fynu inclein Rhiwbach 1. Wedyn gwneud fy ffordd at Lwybr 103. Dim yn hawdd dilyn y llwybr am ei fod heb ei farcio ar y map y cyngor. Ond mae'r llwybr yn dangos yn glir ar hen fapiau OS y cyfnod tua 1918 6 modfedd i'r filltir sydd gennyf.	18.12.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
106	**O Stryd yr Eglwys i uchelfannau'r Garreg Ddu.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Fanc y Nat West at uchelfannau Garreg Ddu. **(Nid ar y map diffiniol)**	Wedi cau hefo rhododendron a cherrig! Mae yn bosib mynd heibio hefo gofal.	7.10.16	
107	***From Towyn Road to Glanypwll Road.*** *The footpath starts at Towyn Road, goes down to and along narrow gauge railway, over a footbridge and to Glanypwll Road.* ***(Not on definitive map)***	Wedi cerdded y llwybr o ddau ben fel mae yn bosib. Ond dim yn gallu ei gerdded yn gwbl am fod rheilffordd ag y bont ayb wedi newid y tir. Wedi cael y wybodaeth am y llwybr gan berson oedd wedi byw yno yn y 1950au ymlaen. Ac wedi gweld y llwybr gwreiddiol ar hen fap 1918 or ardal.	17.12.17	
110 **282m**	**O'r A470 yng Nghefn Pannwl i Lwybr 18.** Mae'r llwybr troed yn	Dim postyn arwydd hefo Llwybr 18.	16.10.16	

	cychwyn o'r A470 yng Nghefn Pannwl, milltir i'r dwyrain o Lan Ffestiniog i'r gorllewin o'r tŷ ac yn rhedeg i'r gogledd at Lwybr 18.			
111	**O Lwybr 4 i'r De o Gelli Wennog i Lwybr 4 wrth fynedfa'r hen Dwnnel** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 4 i'r dde o Gelli Wenog yn arwain i'r gogledd, ar hyd trac yr hen reilffordd, yn rhannol rhedeg gydâ Llwybr 6 am ychydig lathenni, yna ar hyd yr hyn a ddangosir ar fap OS fel trac twnnel i ymuno â Llwybr 4 pellter byr tu hwnt i agoriad y Twnnel. **Nid ar y map**	Dim arwydd o Lwybr 4.	29.08.16	
Llwybr	**Lleoliad**	**Gwaith/sylw angen**	**Dyddiad Cerdded**	**Sylwad Pwyllgor Mwynderau**
118 **656m**	**O Lwybr 20 (i'r gorllewin o Bont yr Afon Gam) i Lwybr 19 yn Llyn Dubach y Bont.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o Lwybr 20, 200 llath i'r gorllewin o Bont yr Afon Gam, gan arwain i'r gogledd ddwyrain i ymuno â Llwybr 19 ym mhen dde ddwyreiniol Llyn Dubach y Bont.	Dim arwydd o Lwybr 19 wrth lyn Dubach y Bont. Dim arwydd o Lwybr 20.	26/11/16	
119 **Cat.** **1/2** **1432m**	**O Lwybr 103 ger Moel Bowydd i ymuno â Llwybr 60 yn Llyn Bowydd.** Y llwybr yn dechrau ger Moel Bowydd tua'r dwyrain ar hyd tramffordd Rhiwbach, croesi Llwybr 60 i ymuno â changen o Lwybr 60 yn Llyn Bowydd.	Dim arwyddion at Lwybrau 103, 104 a llwybr 60 mewn tri lle. Mae angen postiau i farcio'r llwybr am fod peiriannau Llechwedd wedi creu gymaint o wahanol draciau ar ochr y mynydd.	30.10.16	

120 **367m**	**O'r A470 ym Mhont Newydd i'r dde ddwyrain at Fryn Saeth â Llwybr 23, Maentwrog.**	Dim arwydd wrth A470 ger allt Bryn Saeth	10.09.16	Angen arwydd newydd, yr hen arwydd wedi diflannu wrth newid y polyn trydan.
121 **267m**	**O derfyn dwyreiniol plwy Maentwrog i'r Ynys Las.** Mae'r llwybr troed yn dechrau o derfyn dwyreiniol Maentwrog ar hyd yr afon Cynfal i'r ffordd ger Ynys Las, i'r gorllewin o Bont Newydd.	Dim problem	10.09.16	
122 **518m**	**Bontnewydd (dwyrain) i ymuno â Llwybr 10, Maentwrog,** **gyda changen yn mynd i'r gogledd i ymuno â Llwybr 22 ger Afon Cynfal.** Yn rhan o lwybr 10 Maentwrog.	Dim arwyddion Llwybr 120 wrth A470. Mae Llwybr 10 Maentwrog wedi mynd yn flêr ofnadwy. Ac oes dim camfa drosodd nag giat at Hafod fawr isaf or gwaelod nag or ffordd goedwig (forestry) ar y rhan uchaf.	09.10.16	

PENDERFYNIAD: Derbyn yr argymhellion ac i gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â chael arwyddion saeth felyn.

9850/04/17 PWYLLGOR NADOLIG

Diweddariad yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Nadolig nos Lun 20fed o Fawrth 2017

Cafwyd gwybodaeth bod trefniadau yn symud ymlaen ond yn anffodus nid oes unrhyw bris pendant i law hyd yn hyn.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

9851/04/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0306/03/LL
Ymgeisydd Mrs Christine Robinson
Gweithdai Glanypwll
Blaenau Ffestiniog
Newid defnydd o swyddfeydd i dŷ preswyl
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0081/03/LL
Ymgeisydd Mr A Pierce
21 Heol yr Eglwys

Blaenau Ffestiniog
Newid defnydd adeilad gynnwys caffi gyda man eistedd allanol, byncws 5 ystafell wely gyda adnoddau cysylltiol, uned byw hunan cynhaliol 3 ystafell wely, ynghyd a newidiadau strwythurol gan gynnwys dymchwel rhan o'r adeilad presennol, newid blaen siop a chreu man parcio
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod a derbyn y wybodaeth parthed penderfyniadau gan yr Awdurdod Cynllunio.

9852/04/17 PATAGONIA
Creu cynllun cyfathrebu

PENDERFYNIAD: I ddanfon llythyr i Rawson yn gadael iddynt wybod mai Elin Roberts yw enillydd yr ysgoloriaeth eleni. I drafod mewn grwpiau bychan dros y misoedd nesaf sut i werthu'r ysgoloriaeth er mwyn cael mwy o ymgeiswyr. Teimlir bod y Cyngor Tref yn cynnig cyfle gwych i deithio i'r Wladfa ac i gryfhau'r cyfeillgarwch rhwng Rawson a'r ardal hon.

9853/04/17 IECHYD

PENDERFYNIAD: Ni chafwyd trafodaeth

9854/04/17 GWEFAN Y CYNGOR TREF
Cafwyd gwybodaeth bod y wefan yn fyw erbyn hyn ar cyngortrefffestiniog.cymru

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9855/04/17 PARTNERIAETH Y PARC
Cafwyd gwybodaeth bod y Cynghorwyr Annwen Daniels, Bedwyr Gwilym a Mandy Williams-Davies wedi gosod ffens diogelwch yn y Parc er mwyn galluogi plant i ddefnyddio'r cae chwarae unwaith eto. Bu'r tri chynghorydd hefyd yn brysur yn gwerthu'r logiau o'r coed a gwympodd yn dilyn storm Doris un bore Sadwrn ac yn lle pris priodol gofynnwyd am gyfraniad tuag at y Parc.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i ysgrifennu at Mr Mike Phillips yn diolch iddo am ei haelioni yn rhoi benthyg pystiau ffens.

9856/04/17 CAEAU CHWARAE
Cafwyd gwybodaeth bod y siglen newydd i'w gosod yn y Parc cyn hir, hefyd bydd gwreiddyn un goeden fawr sydd ar ôl yn y Parc yn cael ei gario ffwrdd yn ystod yr wythnos.
Cafwyd gwybodaeth hefyd bod y gwaith ar y Parc Sglefrio ar fin darfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9857/04/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Adroddodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies iddi fynychu Plas Tan y Blwch dros y penwythnos a chwrdd â myfyrwyr o Goleg Birbeck. Roedd y myfyrwyr yn gweld potential enfawr i'r ardal ac yn mwynhau'r ymweliad yn arw.

Bu i Fwrdd Llywodraeth Ysgol Maenofferen gwrdd â'r pennaeth newydd yn ddiweddar a dywedwyd iddo edrych ymlaen at ddechrau ei swydd newydd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9858/04/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Ni chafwyd unrhyw newyddion

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9859/04/17 PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Cynhelir nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cynghorau Tref a Chymuned rhwng 6.00 a 9.00pm ar y dyddiadau canlynol - 13eg, 19eg ac 20fed o Fehefin.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9860/04/17 RHEILFFORDD FFESTINIOG

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Diolchwyd i'r Cynghorwyr sydd yn ymddeol o'r Cyngor Tref gyda'r etholiad ym mis Mai am eu gwaith caled dros y blynyddoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR TREF
NOS IAU 18ed MAI 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD BLYNYDDOL 18ed MAI 2017
AR YR 11eg MAI 2017

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 18ed MAI 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 18ed MAI 2017
AR YR 11eg MAI 2017